

Ordinhad 29 Yr Ymwelydd

Corff Cymeradwyo: Y Cyngor

Dyddiad Cymeradwyo: 06 Gorffennaf 2018

Perchennog y polisi: Ysgrifennydd y Brifysgol

Cyswllt y polisi: Geraint Pugh, gop2@aber.ac.uk / 01970 62 2114

Statws y polisi: Diwygiwyd

Fersiwn: 2.0

Dyddiad adolygiad diwethaf: Mai 2020

Dyddiad adolygu nesaf: Gorffennaf 2022

ORDINHAD 29

YR YMWELYDD

1. Penodi'r Ymwelydd

1. Mae Erthygl X o Siarter Prifysgol Aberystwyth yn datgan "Bydd Ymwelydd i'r Brifysgol a benodir gan y Cyfrin Gyngor, ar enwebiad y Cyngor, o blith y rhai hynny sydd yn dal neu sydd wedi dal swyddi barnwrol uchel."
2. Bydd unigolion yn cael eu hargymell ar gyfer penodiad i feirniadu deisebau unigol.

2. Swyddogaeth ac awdurdodaeth yr Ymwelydd

1. Swyddogaeth yr Ymwelydd yw dyfarnu ar ddeisebau gan aelodau o staff academiaidd y Brifysgol, yn unol â'r diffiniad yn Ystatud 1. Cyfyngir awdurdodaeth yr Ymwelydd i ddyfarnu ar ddeisebau gan yr aelodau hynny o'r staff ar sut y mae Siarter, Ordinhadau, Rheoliadau a Pholisïau'r sefydliad yn cael eu dehongli a'u cymhwyso, ar yr amod nad anghydfod cyflogaeth mo'r mater dan sylw. Fel rheol mae'r Ymwelydd yn ymdrin â materion megis uniondeb gweithdrefnol, tegwch, rhagfarn ac afreoleidd-dra, ac ni fydd yn ymyrryd ac eithrio mewn achosion lle y mae o'r farn bod risg bod y Brifysgol yn gweithredu'n amhriodol: naill ai o ran methu â dilyn ei rheolau neu ei gweithdrefnau ei hunan, neu er iddi ddilyn y gweithdrefnau priodol, ei bod wedi dod i benderfyniad na allai corff rhesymol fod wedi'i wneud.
2. Nid oes gan yr Ymwelydd awdurdodaeth i ystyried unrhyw gwynion gan aelodau o'r staff anacademaidd.
3. Nid oes gan yr Ymwelydd awdurdodaeth i ystyried cwynion gan fyfyrwyr neu gyn-fyfyrwyr na chwynion ynghylch cais i astudio yn y Brifysgol.

3. Trefn Deisebu i'r Ymwelydd

1. Fel rheol ni fydd yr Ymwelydd yn fodlon ystyried deiseb nes y bydd yr unigolyn wedi dilyn yr holl lwybrau adolygu o fewn y Brifysgol fel y'u darperir gan yr Ystatudau, yr Ordinhadau, y Rheoliadau a'r Polisiâu a nes y caiff yr unigolyn wybod bod y Brifysgol wedi cymryd ei phenderfyniad terfynol, neu heblaw bod tystiolaeth bod y Brifysgol yn osgoi ymdrin â'r mater neu i'w gweld yn ymddwyn yn afresymol.
2. Os bydd unrhyw aelodau o staff academiaidd y Brifysgol am ddeisebu i'r Ymwelydd, dylent gyflwyno eu hachos yn ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Brifysgol, fel Clerc i'r Gyngor (gweler 3.3), fydd yna'n cymryd y camau perthnasol i sicrhau bod Ymwelydd yn cael ei benodi.
3. Yr Ymwelydd fydd yn penderfynu a oes achos *prima facie* i'w ateb gan y Brifysgol ac os felly bydd yn anfon y ddeiseb i'r sefydliad er mwyn iddo ymateb iddi. Fel rheol bydd yr Ymwelydd yn penderfynu ar achosion ar sail y papurau a gyflwynwyd.
4. Dylid cyfeirio deisebau at yr Ymwelydd drwy law Ysgrifennydd y Brifysgol, y Ganolfan Ddelweddu, Campws Penglais, Prifysgol Aberystwyth, SY23 3BF.